Community Foundation Wales

# Meini Prawf y Gronfa

## Ein Cymunedau Ynghyd - Cronfa Argyfwng Costau Byw

Rydym yn gwybod bod y trydydd sector yng Nghymru wedi gweld cynnydd enfawr yn y galw am wasanaethau, o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw. Y trydydd sector yw'r glud sy'n dal ein cymunedau ynghyd. Mae'n darparu cymorth parhaus pan mae gwasanaethau statudol yn dod i ben, ac mae'n hyblyg ac yn addasadwy i anghenion newidiol pobl leol. Ond nid yw'r sector wedi dianc rhag effaith costau cynyddol fel rhent, cyfleustodau a staffio, sydd hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y rhai y mae'n ymdrechu i'w cefnogi.

Yn gynharach eleni, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gweithiodd Sefydliad Cymunedol Cymru mewn partneriaeth â'r cwmni cyfryngau Newsquest i lansio Ein Cymunedau Ynghyd - Apêl Argyfwng Costau Byw. Arweiniodd rownd gyntaf y cyllid at ddyfarnu dros £1 miliwn o gyllid i grwpiau cymunedol ac elusennau ledled Cymru, sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i bobl sy'n wynebu effeithiau andwyol yr argyfwng costau byw. Fodd bynnag, rydym yn gwybod fod llawer mwy y gellir ei wneud o hyd yn wyneb costau cynyddol, a thlodi ac ansicrwydd cynyddol, sydd ond yn gwaethygu yn ystod misoedd y Gaeaf.

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi partneru gyda Newsquest eto i ailagor y gronfa i geisiadau am rownd arall o gyllid. Wrth i ni ailagor y gronfa, mae'n bwysig ein bod yn rheoli disgwyliadau'r grwpiau sy'n ystyried gwneud cais. Darllenwch y meini prawf canlynol yn llawn cyn i chi benderfynu a ydych am wneud cais.

Bydd y grwpiau rydym eisiau eu cefnogi yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i deuluoedd ac unigolion lleol sy'n wynebu argyfwng a chaledi oherwydd yr argyfwng costau byw. Bwriedir i'r cyllid fod yn fwy na dim ond 'plastr glynu', a dyna pam rydym eisiau cynnig cymorth tymor hwy i weithgareddau grŵp a gwasanaethau. Rydym yn awyddus i gefnogi gweithgareddau sy'n cael eu darparu o leiaf bob wythnos, ac sy'n galluogi pobl i ddiweddu eu hwythnos gydag ychydig mwy o arian yn eu pocedi, i'w helpu i reoli eu gwariant yn well. Byddem yn croesawu ceisiadau gan sefydliadau sy'n cynnal prosiectau sy'n cynnig cymorth i unigolion o ran llesiant, grantiau a chyngor ar fudd-daliadau, neu gymorth i gael dyled dan reolaeth.

**Ni allwn ystyried:**

- ceisiadau i gefnogi costau craidd canolfan gymunedol/clwb chwaraeon/clwb ieuenctid/theatr neu glwb drama ac ati lle NAD ydynt yn darparu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw
- ceisiadau gan grwpiau sy'n darparu bwrsariaethau/grantiau i unigolion neu deuluoedd
- ceisiadau gan sefydliadau sy'n darparu cymorth iechyd meddwl neu gwnsela
- ceisiadau sy'n gofyn am gymorth i dalu am weithgareddau i aelodau

Yn ogystal, gan mai dyma'r ail rownd o gyllid, byddwn yn blaenoriaethu'r grwpiau/gwasanaethau canlynol, i sicrhau bod gennym gynrychiolaeth dda ledled Cymru ac ar draws y materion amrywiol y mae'r argyfwng hwn yn effeithio arnynt:

- Pantrïoedd bwyd cymunedol a/neu wasanaethau sy'n cynnig cymorth i goginio prydau rhad yn hytrach na darpariaeth parseli bwyd/banc bwyd
- Grwpiau sy'n rhoi cymorth gyda thlodi tanwydd
- Grwpiau sy'n darparu cyngor ar ddyledion/cyllidebu ariannol a mynediad at gyngor ynghylch budd-daliadau lles
- Grwpiau sy'n cynnig gweithgareddau (yn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw) o leiaf unwaith yr wythnos
- Grwpiau sy'n cefnogi teuluoedd sy'n gweithio sydd ar incwm isel e.e. darparu prydau poeth mewn clwb y tu allan i'r ysgol
- Grwpiau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uchel yng Nghymru (bydd hyn yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn ogystal â'r rhai sy'n cefnogi unigolion o gefndiroedd nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Grwpiau sy'n rhedeg prosiectau cymwys sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd canlynol sydd â chynrychiolaeth isel, yn cynnwys: Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Ceredigion, Powys, Sir Benfro, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Bro Morgannwg

## Y grantiau sydd ar gael

Bydd y grantiau'n talu costau craidd* a/neu brosiect grwpiau sy'n gallu dangos eu bod yn darparu gwasanaethau i'r gymuned i helpu i liniaru sefyllfaoedd o argyfwng a chaledi.  Gall grwpiau wneud cais am grant o hyd at £5,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd. Ni ddylai grwpiau a sefydliadau fod ag incwm sy'n fwy na £500,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yr adroddwyd arni. Gyda "bras" rydym yn golygu o fewn 10% yn uwch, ond byddai'n well gennym pe baech yn trefnu galwad gyda Swyddog Grantiau i drafod eich sefyllfa ariannol cyn gwneud cais os ydych yn ansicr.

## Pwy all wneud cais?

Mae'r gronfa hon yn agored i elusennau a sefydliadau cymunedol cyfansoddiadol sy'n cefnogi pobl yn y gymuned leol o ganlyniad uniongyrchol i'r argyfwng costau byw.

- Grwpiau Gwirfoddol Cyfansoddiadol
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau cyfyngedig trwy warant (Nid er elw preifat)
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol
- Mentrau Cymdeithasol

Bydd angen i'r sefydliad fodloni ein gofynion sylfaenol, y gallwch eu darllen ar ddiwedd tudalen we'r gronfa.

Nid yw grwpiau sydd â grantiau gweithredol gan Ein Cymunedau Ynghyd – Cronfa Costau Byw yn gymwys i wneud cais am gyllid pellach o'r gronfa hon.

## Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan.

**Noder:** *Nid yw’r gronfa hon yn gronfa generig. Wrth hyn rydym yn golygu na allwn gynnig grantiau i grwpiau NAD yw cymorth ar gyfer pobl sy’n wynebu caledi a/neu argyfwng oherwydd costau byw yn ffocws allweddol i’w gwaith. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am gyllid costau craidd, y gellir ond eu hystyried os mai prif ffocws y cymorth a ddarperir yw mynd i'r afael yn uniongyrchol â’r argyfwng costau byw yn y gymuned leol.

- Ni fydd grantiau’n cael eu dyfarnu’n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau a gafwyd cyn i chi gael ein llythyr cynnig grant, ac mae’r telerau ac amodau wedi’u llofnodi a’u dychwelyd.

- Nid yw grantiau ar gael tuag at waith codi arian cyffredinol neu i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall meini prawf y gronfa cyn i chi gwblhau eich cais. Os hoffech drafod unrhyw beth gyda Swyddog Grantiau cyn gwneud cais, defnyddiwch y botwm ‘Trefnu galwad’ ar dudalen y gronfa.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned y maent yn byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, yn wirfoddol a statudol, ac yn eu hategu. Hoffem i chi feddwl am sut y gall eich sefydliad gydweithio ag eraill i ychwanegu gwerth, gan weithio mewn partneriaeth yn hytrach nag mewn cystadleuaeth. Yn eich cais, eglurwch eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol, hoffem weld sut mae grwpiau'n meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau i weithio gydag eraill ac ochr yn ochr â nhw.